# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**GAEAF 2023**

**TGAU**
**LLENYDDIAETH GYMRAEG - UNED 1**
**HAEN UWCH**
**3010NA0-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2023. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**TGAU LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**UNED 1 - HAEN UWCH**

**GAEAF 2023 CYNLLUNIAU MARCIO**

**Y Coed**

- Cerdd a sbardunwyd gan ymweliad Gwenallt â Jeriwsalem ble gwelodd y coed a blannwyd i gofio am yr Iddewon a laddwyd yn yr Holocost. Sonnir am erchyllterau'r digwyddiad yn yr Ail Ryfel Byd a phwysleisir y chwe miliwn o bobl a gollodd eu bywydau. Y coed yw'r gofeb iddynt.
- Aiff y bardd yn ei flaen i sôn am enghreifftiau eraill o ryfela a dinistr o amgylch y byd a bod sawl cenedl yn euog o gyflawni erchyllterau rhyfel. Cofir am y rhyfela rhwng yr Israeliaid a'r Arabiaid; y Natsïaid a Phrydain; bomiau Hiroshima. Dywed y bardd y gallai sawl cenedl fod yn plannu coedwigoedd i gofio am eu colledion.
- Mae'r bardd yn collfarnu'r ugeinfed ganrif fel yr un waethaf erioed o ran ymddygiad barbaraidd dyn, ond mae'n rhagweld y bydd y ganrif nesaf yn waeth fyth, a hynny oherwydd bod dyn yn dal i gynllunio technegau lladd newydd at y dyfodol. Cyfeirir at sicrwydd y bardd y daw Trydydd Rhyfel Byd.
- Cyn cloi, try'r bardd ei sylw at leoliad arall yn Jeriwsalem sef Golgotha a'r tair croes ble croeshoeliwyd Iesu. Newidia'r rhif o chwe miliwn, i dair croes, i Un dyn. Dyma'r unig achubiaeth i ddynoliaeth meddai Gwenallt, sef credu yng ngair ac efengyl Iesu Grist.
- I gloi'r gerdd dychwelir at y coed ac er eu bod nhw'n fyw ac yn newid eu lliwiau, symbol o farwolaeth ydyn nhw, ac arwydd sicr i'r genhedlaeth nesaf o bechod y ganrif hon.

**Niwl**

- Disgrifia'r bardd ei daith mewn car drwy ogledd ddwyrain Ffrainc. Dyma'r eildro iddo fod yno a'r ail ymweliad pan oedd y tywydd yn niwlog iawn.
- Sonnir am fore braf a heulog, ond bod y prynhawn yn gyferbyniol a'r niwl yn cau amdano.
- Mae'r niwl yn drech na golau'r car hefyd a'r melyn yn ildio i'r llwyd o'i gwmpas. Sonnir yn drosiadol am 'lampau'n diffodd' ac mae hynny'n ein harwain at gysylltiad yr ardal gyda rhai o frwydrau'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r colledion a fu ymysg y milwyr ifanc.
- Mae'r gerdd yn un 'weledol' iawn yma a dysgwn fod ambell arwydd ar ochr y ffordd yn dangos ble mae beddau milwyr y Rhyfel Byd Cyntaf. Trwy'r cyfan mae'r niwl yn parhau i amgylchynu'r bardd a'r tir.
- I gloi'r gerdd ailadroddir y gair 'niwl' sawl gwaith gan adeiladu at y cyfeiriad at 'hen niwl y ddynoliaeth' sy'n awgrym o anghofrwydd dyn a'i anallu i gadw'r cof am y gorffennol yn glir er mwyn osgoi'r un camgymeriadau i'r dyfodol.

**Pwyntiau Cymharu**

- Dwy gerdd sydd wedi eu symbylu gan ymweliad a phrofiad personol y bardd mewn man penodol.
- Cerddi rhyfel – y naill yn cyfeirio at sawl rhyfel gwahanol (er mai'r Holocost yw'r tarddle) a'r llall yn fwy penodol yn ardal rhai o frwydrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.
- Y ddwy gerdd yn enwi mannau penodol a chyfeirio at frwydrau'r gorffennol.
- Rhyw fath o bwyslais ar rifau a niferoedd yn y ddwy gerdd – chwe miliwn, tair, un / dau dro.
- Elfen naturiol yn y cynnwys a'r teitlau – coed / niwl, ond yn mynd rhagddynt i drafod agweddau dynol a gwendidau'r ddynoliaeth wedyn.
- Beirniadaeth ar yr hil ddynol yn y ddwy gerdd a diffyg ymddiriedaeth y bydd dyn yn dysgu o'i gamgymeriadau.
- Cychwyn a gorffen gyda'r coed 'coedwig y marwolaethau' / disgrifio'r niwl drwy gydol y gerdd a chloi gyda datganiad tebyg am 'niwl y ddynoliaeth'.



© WJEC CBAC Cyf.

**Arddull: Y Coed**

- Cyffelybiaeth – y cangau fel cofgolofnau byw
- Ansoddeiriau cymharol – fwyaf / waeth / fwy
- Cyfeiriadau at lefydd – Cairo / Aman / Japan / Dresden
- Cyflythreniad – lladdedigion llosg
- Rhifolion – chwe miliwn, tair croes, dau fom, Un.
- Mesur – Mydr ac Odl (rhydd)
- Torri'r mesur – un llinell unigol. Llinell a hanner.

**Arddull: Niwl**

- Ail adrodd – niwl / troes
- Ansoddair – 'hen' – newid lleoliad yr ansoddair
- Cyfeiriadau at enwau llefydd – Sommes, Amiens
- Personoli – mygu'r heulwen
- Cyferbynnu – bore / prynhawn; melyn / llwyd
- Trosiad – lampau'n diffodd
- Mesur – penrhydd (rhydd)

**Neges:**

**Y Coed:** Does yr un genedl yn gwbl ddieuog gan fod rhyfela a lladd yng ngwaed dyn erioed. Yr unig Un all ein hachub mewn gwirionedd yw Iesu Grist a'i ffordd bur o fyw.

**Niwl:** Mae dyn yn anghofio'n hawdd am erchyllterau rhyfel a dyna yw'r patrwm dro ar ôl tro. Gwendid y ddynoliaeth yw'r anghofrwydd hwn a diffyg dysgu gwersi gan nad yw un rhyfel yn osgoi'r nesaf.



© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **31-40** | • Dadansoddi a dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn dreiddgar addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar<br>• Dangos ymateb personol treiddgar<br>• Defnyddio dyfyniadau yn effeithiol<br>• Cymharu testunau'n fedrus<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn glir a chydlynol*<br>• *Gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **21-30** | • Dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn dda addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda<br>• Dangos ymateb personol da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas a phwrpasol<br>• Cymharu testunau'n ystyrlon<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus*<br>• *Gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **11-20** | • Dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn eithaf da addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol<br>• Dangos ymateb personol eithaf da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas<br>• Cymharu testunau'n eithaf da<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *Gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **0-10** | • Dangos peth dealltwriaeth am gynnwys a neges/thema<br>• Trafod ychydig ar addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol<br>• Ymgais i ymateb yn bersonol<br>• Defnyddio ambell ddyfyniad<br>• Ymgais i gymharu testunau<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>• *Gafael anghyson ar sillafu atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.